



CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

# Gwneud Gwahaniaeth












**Mae lluniau yn y llyfryn hwn yn cynnwys ein deiliaid grant ledled y DU.**
Clawr o'r chwith i'r dde:
1. Hull Sound Circles
2. Ysgol Longstone
3. Shantona Women's Centre
4. Cardiff Community Housing Association
5. Hull Sound Circles
6. PARCA

Arts Etka, Gogledd Iwerddon

# Cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr cymunedol mwyaf yn y DU ac mae'n falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Wrth wraidd ein gwaith mae'r gred bod cymunedau'n ffynnu pan fydd pobl yn arwain. Rydym yn gwrando, yn cydweithio ac yn ariannu fel y gallwn gefnogi syniadau gwych sy'n gwneud i bethau da ddigwydd.

Y llynedd, gwnaethom ariannu dros 14,000 o brosiectau a dyfarnu £590 miliwn mewn grantiau i bob awdurdod lleol yn y DU. Rydym yn falch iawn bod bron i 60% o'n grantiau yn 2019 wedi'u dyfarnu i grantiau newydd a'u bod wedi cefnogi 30,000 o brosiectau gweithredol yn 2019/2020 yn unig. Mae ein grantiau yn adlewyrchu ein hymrwymiad i werthfawrogi amrywiaeth cymunedau a'u creadigrwydd. Rydym yn cefnogi elusennau, grwpiau cymunedol, a phobl sydd â syniadau gwych – lleol neu genedlaethol, mawr neu fach.

Ni allwn fyfyrio ar y gwahaniaeth a wnaeth ein grantiau i gymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf heb gydnabod y newid radical yn y DU yn gynnar yn 2020 wrth i bandemig COVID-19 gyrraedd y DU. Yn ystod yr argyfwng coronafeirws mae pobl wedi teimlo pwysigrwydd cymdeithas sifil a phrosiectau cymunedol.

Gwnaethom gyflymu ein gweithrediadau i ymateb yn fuan a dyfarnwyd dros £474 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol, gyda dros 16,000 o grantiau yn cefnogi sefydliadau ledled y DU ers dechrau'r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth hyd at fis Rhagfyr. Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill, gan rannu ein profiad, ein deallusrwydd o gymunedau ac arbenigedd a gafwyd o fewnwelediadau a dynnwyd gan bobl a chymunedau, wrth i ni i gyd barhau i ddiweddaru ein syniadau a'n hymateb i argyfwng COVID-19. Mae ein grantiau yn parhau i ddarparu cymorth hanfodol - adeiladu a chynnal cymunedau a rhwydweithiau cryf.

**£474m** O arian y Loteri Genedlaethol i dros
**16,000 o sefydliadau**
ledled y DU ers i'r cyfnod clo ddechrau.

# Rydym wedi'n lleoli yn y cymunedau a wasanaethwn

**Mae ein grantiau yn cyrraedd pob ardal yn y DU, gan fynd i bob Awdurdod Lleol, etholaeth a thros 90% o wardiau ledled y DU yn 2019/2020.**

Mae ein cefnogaeth yn amrywio o grantiau bach o dan £10,000 i fuddsoddiadau strategol gwerth miliynau o bunnoedd sy'n cefnogi meysydd polisi allweddol, mae'r gwaith a ariennir gennym yn cefnogi pobl drwy gydol eu bywydau. Rydym yn gwrando ac yn ymateb i'r hyn sy'n bwysig nawr ac yn helpu i baratoi cymunedau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ariannu pob rhan o'r DU, gan gynnwys dinasoedd mawr, trefi ac ardaloedd gwledig. Yr ydym wedi bod yn lefelu'r maes chwarae ar draws cymunedau yn y DU ers 25 mlynedd. Aeth dros 30% o'n harian y llynedd i'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU a thros y pum mlynedd diwethaf, aeth dros hanner ein grantiau i sefydliadau yn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig a gwmpesir bellach gan agenda lefelu Llywodraeth y DU.

Credwn y dylai ein staff ariannu fod yn agos ac yn hygyrch i gymunedau, dyna pam mae gennym fodel o'n timau ariannu sy'n byw ac yn gweithio ar draws rhanbarthau a chenhedloedd y DU. Mae'r rhwydwaith hwn ledled y wlad yn golygu ein bod bob amser yn dysgu o wybodaeth a diwylliant lleol i wella ein cynnig yn barhaus.

Cyfanswm o

**27,000 prosiect**

a ariannwyd gennym yn weithredol yn 2019/20, un ym mhob awdurdod lleol yn y DU

**60%** O'n grantiau yn mynd i

**sefydliadau bach**

sy'n rhedeg ar lai na £100,000 y flwyddyn.



**"Nid yn unig ydw i'n edrych ymlaen at y llu o weithgareddau a digwyddiadau rwy'n eu mynychu, ond cael bod yng nghwmni cynifer o bobl newydd, nifer ohonynt rwyf yn eu hystyried fel ffrindiau gwych bellach"**

Derrick

Newtownabbey Senior Citizen's Forum, Gogledd Iwerddon

# Mae cymunedau'n gwybod beth mae nhw angen




Ullapool Sea Savers, yr Alban

Cynhaliodd yr elusen cadwraeth forol i blant Ullapool Sea Savers barti gwerthfawrogiad gorgimwch o bellter cymdeithasol, ledled y gymuned, i gefnogi pysgotwyr lleol a hybu morâl yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

Ar ôl prynu gwerth dau ddiwrnod o ddal o gorgimychiaid o gwch lleol, archwiliodd y plant – gyda chymorth rhieni – ac yna rhannu'r ddalfa, a gynigiwyd ganddynt am ddim ar-lein a'i dosbarthu o amgylch y pentref. Yna, cyflwynodd aelwydydd Ullapool luniau o'r prydau yr oeddent yn eu coginio ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Action in Caereau and Ely (ACE)**

Mae ACE yn eiddo i ac yn cael ei redeg gan drigolion dwy ystad gyngor yng ngorllewin Caerdydd. Wedi dechrau fel rhan o raglen gwrth - dlodi Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cymru, mae'n gweithio i wella ac adfywio ei chymunedau. Mae prosiectau'n amrywio o gymorth argyfwng i gelfyddydau a chrefftau cymunedol – ac, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, mae ACE wedi gorfod ailfeddwl sut mae'n gweithredu i ateb heriau COVID-19.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi cefnogi ACE ers 2012, gan gynnwys grant o £498,343 fel rhan o'r rhaglen Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio, a grant penodol o £9,288 ar gyfer ei chynllun Your Local Pantry.

"Os ydw i'n ansicr am unrhyw beth, arian, biliau, tai neu'r plant a'r ysgol, rwy'n galw mewn i ACE gan eu bod nhw'n fy adnabod, gwrando, ddim yn fy marnu a gallant fy helpu."

Emma



# Cefnogi adnewyddu cymunedol

Mae ein grantiau yn helpu i wella, adfywio a chefnogi cymunedau i wireddu'r weledigaeth sydd ganddynt ar gyfer eu cymuned. Credwn fod cymunedau'n gwybod beth sydd ei angen arnynt, a sut i'w gyflawni. Gall ariannu grwpiau cymunedol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt arwain at fudd cymdeithasol mawr a gwerth da am arian. Gwelwn y gall symiau bach gynnig enillion mawr. Mae ein grantiau yn aml yn mynd i grwpiau sy'n wirfoddol yn bennaf, neu'n gyfan gwbl. Mae cyfanswm o 60% o'n grantiau yn mynd i'r sefydliadau hyn sy'n gweithredu ar gyllid bach iawn – yn aml gyda throsiant o lai na £100,000 y flwyddyn, ond yn cyffwrdd â llawer o fywydau.

**Nu Life Furniture**

Mae Nu Life Furniture yn uwchgylchu ac yn adnewyddu dodrefn a nwyddau a roddwyd ac yna'n eu cynnig i bobl leol am brisiau fforddiadwy, gan helpu dros 500 o aelwydydd. Yn fwy na hynny, mae wedi arbed dros 100 tunnell o ddeunydd yn mynd i safleoedd tirlenwi ac wedi cynnig mwy na 10,000 o oriau o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc sydd wedi dysgu sgiliau sy'n helpu eu rhagolygon gyrfa.

Nid yw James wedi cael swydd sefydlog yn y naw mlynedd ers gadael yr ysgol ac effeithiwyd ar ei iechyd meddwl. Awgrymodd ei weithiwr cymorth ei fod yn gwirfoddoli yn NuLife.

"Nawr rwy'n gwirfoddoli yma bob dydd. Mae gen i sgiliau ac mae wedi rhoi mwy o hyder i mi. Mae wedi rhoi rheswm i mi godi Yn y bore. Dydw i ddim yn gwybod ble fyddwn i hebddo."

James

# Symiau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr

**Grantiau meicro yn galluogi pobl i arwain**

Ym mis Tachwedd 2019, i ddathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed, adeiladwyd ar ein profiad o ddyfarnu grantiau meicro gyda #Dathlu25LoteriGenedlaethol, gan wneud £2 filiwn ar gael i bobl wneud cais am grant a hyd at £1,000 i ddod â phobl at ei gilydd yn eu cymuned. Roedd 54% o ymgeiswyr yn gwneud cais i ni am y tro cyntaf. Dyfarnwyd y grantiau yn 2020.

Ym mis Mehefin, am yr ail flwyddyn yn olynol, gwnaethom gefnogi Penwythnos Cymunedol Maer Gorllewin Canolbarth Lloegr. Gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr, gwnaethom gynnig symiau bach o arian i gymunedau ledled Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

Nid oedd 52% o ymgeiswyr llwyddiannus erioed wedi gwneud cais i ni o'r blaen.



Te prynhawn mwyaf Guinness World Records™


Mayor’s Community Weekend, Lloegr



# Ariannu hyblyg a hirdymor

Gwyddom y gall cefnogi sefydliadau sydd â grant hirdymor fod yn un o'r pethau mwyaf gwerthfawr a wnawn. Mae cymorth hirdymor yn rhoi'r lle anadlu i ddeiliaid grantiau ddatblygu'r atebion y maent yn gwybod fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Drwy ein Portffolio Strategol yr ydym yn buddsoddi dros £500 miliwn ledled Lloegr i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol hirdymor mewn ffyrdd arloesol. Darperir yr arian hwn drwy bum rhaglen tymor hir sy'n cefnogi pobl o'u genedigaeth hyd at fywyd hŷn: A Better Start, HeadStart, Talent Match, Fulfilling Lives a Heneiddio’n Well.

Sefydlwyd y pum rhaglen fawr hyn i dreialu dulliau newydd o gynllunio gwasanaethau, sy'n anelu at wneud bywydau pobl yn iachach ac yn hapusach, o fabanod a phlant ifanc iawn i'r rhai yn ddiweddarach mewn bywyd. Oherwydd yr angen presennol, cyhoeddwyd yn ddiweddar bydd £14.7 miliwn ar gyfer rhaglenni HeadStart a Heneiddio'n Well i sicrhau y bydd pobl ifanc yn cael cymorth gyda'u hiechyd meddwl a'u hunigrwydd yn cael sylw ym mhob cwr o Loegr.

Rydym yn canolbwyntio grantiau hirdymor ar feysydd eraill o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae Youth Social Action, er enghraifft, yn ymrwymiad hirdymor lle credwn y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol a datgloi buddsoddiad mewn mannau eraill drwy ein gwaith.

Y llynedd, cyhoeddwyd ein Cronfa Gweithredu Hinsawdd gwerth £100 miliwn i helpu cymunedau, gan nodi ymrwymiad deng mlynedd i alluogi elusennau a chymunedau i gydweithio i geisio effeithio ar newid amgylcheddol cadarnhaol. Gobeithiwn y bydd hyn yn gatalydd i ysgogi mwy o weithredu gan y cymunedau yr ydym yn eu cefnogi'n uniongyrchol, ond hefyd drwy ysbrydoli arianwyr ac ymgyrchwyr eraill y gwelwn newid parhaus hirdymor ledled y DU.



**"Gall fod yn rhan o newid roi ymdeimlad o falchder i chi, fel arbenigwr. Balchder bod eich profiad yn ddilys a bod gobaith i wella'r gwasanaeth yn y dyfodol."**
Aelod arbenigol o'r panel

Cynhadledd Fufilling Lives, Lloegr

# Rydym yn cynnull cymunedau ymarfer

Mae'n fraint inni fod mewn sefyllfa i edrych ar draws gwaith miloedd o sefydliadau. Gall mwy o onestrwydd am ein llwyddiannau a'n heriau gyfoethogi pawb ac rydym yn mynd ati i ddod â phobl at ei gilydd i rannu a dysgu oddi wrth ein gilydd.

**Mae ein cydweithwyr ariannu yn gweithio fel rhwydwaith cenedlaethol, gan gasglu dysgu a helpu i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i gryfhau eu cymunedau fel y gwelant orau.**

Drwy gydol 2019/20 cynhaliwyd digwyddiadau ledled y DU yn dwyn ynghyd brosiectau sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd, sefydliadau sy'n cyflwyno rhagnodi cymdeithasol, a chynnull cymunedau o ymarfer ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chefnogi pobl oedrannus.

Er bod pandemig COVID-19 yn parhau, rydym yn cynnal digwyddiadau tebyg ar-lein.



St Joseph's Hospice, Lloegr



Polisi Brecwast Unigrwydd Birmingham

# Rydym yn rhannu mewnwelediad a dysg

Rydym am barhau i gefnogi'r gwaith eithriadol a wneir yn bosibl gan bobl sy'n gweithio gyda'u cymunedau ac ar eu rhan. Mae hyn yn gofyn am fwy na gwneud grantiau ar ei ben ei hun. Drwy gysylltu pobl ledled y DU a chasglu'r dysgu a'r mewnwelediad a gynhyrchir gan y miloedd o brosiectau yr ydym yn eu cefnogi – gallwn gefnogi mwy o gydweithio ac atebion a rennir. Mae ein Llyfrgell Dystiolaeth a lansiwyd yn 2019 yn helpu i wneud ein dealltwriaeth o werthusiadau ac ymchwil ehangach yn hygyrch i gynulleidfaoedd allanol. Yn ystod y pandemig rydym wedi rhannu ein dysgu'n gyflym drwy leisiau treuliadwy o lawr gwlad, gan helpu i lywio ein meddwl a chreu mewnwelediad mewn sefyllfa sy'n symud yn gyflym.

Gobeithiwn fod yr hyn sy'n dilyn yn rhoi ymdeimlad o rywfaint o'r gwaith sy'n digwydd ledled y wlad bob dydd, wedi'i ariannu diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r enghreifftiau hyn yn ein hysbrydoli'n ddyddiol a thrwy eu rhannu, gobeithiwn ysbrydoli eraill i feddwl am yr hyn sy'n gallu digwydd pan fydd pobl yn arwain.

**Mae bron i 10,000 o bobl wedi defnyddio'r adnoddau dysgu hyn ers ei lansio yn haf 2020.**



Reaching Families, Lloegr



# Adeiladu Cysylltiadau

Bob blwyddyn mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi miloedd o brosiectau sy'n dod â phobl at ei gilydd drwy ddathlu amrywiaeth, creu cyfeillgarwch a chysylltiadau, a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Ers yr achosion o COVID-19, mae hyd yn oed mwy o'r gweithgarwch rydym yn ei gefnogi wedi symud ar-lein neu wedi digwydd dros y ffôn.

Mae unigrwydd yn effeithio ar filiynau o bobl o bob oed ledled y DU ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dyfarnwyd £105 miliwn i bron i 2,000 o brosiectau sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Rydym yn ariannu prosiectau fel y prosiect Time to Talk Befriending sy'n defnyddio grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i baru cyfeillion gwirfoddol â phobl hŷn sy'n agored i niwed a fyddai fel arall yn cael cyn lleied â phosibl neu ddim cyswllt cymdeithasol arall, neu ein grant Cyrraedd Cymunedau i The Voice That Makes A Difference, sydd wedi'i leoli yn Northampton, sy'n dod â dros 1,000 o bobl ifanc anabl at ei gilydd i fwynhau ffilmiau drwy ddarparu dangosiadau hygyrch 24 awr mewn sinemâu lleol.



Time to Talk Befriending

Credyd Llun: Victoria Dawe

# Cefnogi cymunedau i ffynnu

Mae elusennau a sefydliadau cymunedol ledled y DU yn helpu i wneud cymunedau lleol bywiog, amrywiol a gweithgar, ac mae tyfu gwydnwch cymdeithas sifil yn hanfodol i gynnal y cymunedau hyn gyda'i gilydd a chynnal gwead cymdeithasol.

Elfen allweddol o hyn yw grymuso pobl sydd â phrofiad o lygad y ffynnon. Cafodd ein Cronfa Beilot Arweinwyr â Phrofiad o Lygad y Ffynnon ei datblygu a'i chyd-gynhyrchu drwy weithdai ledled y DU a oedd yn cynnwys mwy na 70 o arweinwyr profiad o lygad y ffynnon. Ei nod yw ymgorffori arbenigwyr drwy brofiad ym mhob agwedd ar weithrediadau sefydliad, gan ddysgu sut mae pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn gallu dod yn arweinwyr a sut y gall arianwyr eu cefnogi. Mae ei lwyddiant wedi ein gweld yn awr yn lansio ail rownd i gynnal momentwm yn y maes pwysig hwn.

Credwn fod cymdeithas sifil ffyniannus yn un amrywiol a chynhwysol. Dyna pam ein bod yn un o 13 o sefydliadau elusennol sydd wedi ffurfio clymblaid i fynd i'r afael â materion sy'n atal amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant rhag ffynnu mewn elusennau.

Rydym wrthi'n archwilio partneriaethau, fel Cronfa Phoenix a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan ymrwymo £1.4 miliwn i bartneriaeth â'r Gronfa Fyd-eang ar gyfer Plant. Bydd y grant yn cefnogi cronfa newydd dan arweiniad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a fydd yn cefnogi cymunedau BAME ac arweinyddiaeth yn Lloegr.

**Ffyrdd eraill rydym yn hyrwyddo newid**

Arallgyfeirio'r gweithlu sy'n gwneud grantiau drwy gefnogi 2027 a Change 100 (ar y cyd ag Anabledd Leonard Cheshire)

Sefydlwyd ein Cronfa Ddigidol gwerth £15 miliwn i alluogi sefydliadau i ddefnyddio offer digidol i gymryd cam mawr ymlaen neu i raddfa/cynyddu eu heffaith

Mae ein Cronfa Dyfodol Newydd yn ariannu sefydliadau i edrych ar sut i bontio a newid er mwyn bod yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol ac rydym yn rhannu eu straeon.



Rydym yn cefnogi cyn-filwyr drwy'r Ymddiriedolaeth Lluoedd arfog annibynnol gwerth £35 miliwn, gan gefnogi lles seicolegol a throsglwyddo cyn-filwyr a'u teuluoedd yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy i fywyd sifil.

Mae Cwmni Gweithgynhyrchu Bravest yr Alban yn helpu cyn-filwyr sydd ag anafiadau sy'n newid bywydau i ailymuno â'r gweithlu

"Mae gweithio yma wedi rhoi strwythur i mi i fy mywyd ac rwy'n edrych ymlaen at ddod i mewn bob dydd, nid yn unig ar gyfer y gwaith ond i'r hwyl yr wyf wedi'i golli'n fawr."
Gary, gweithiwr

Scotland's Bravest Manufacturing Company



Te prynhawn mwyaf Guiness World Records

# Dathlu’r Loteri Genedlaethol

Mae rhai o'n grantiau yn gweithredu ledled y wlad, megis y grant pedair blynedd o £8.6 miliwn a ddyfarnwyd gennym tuag at y Cinio Mawr, a welodd 5.6 miliwn o bobl yn mynychu dros 90,000 o ddigwyddiadau Cinio Mawr ledled y DU ym mis Mehefin 2019.

Hyd yn oed ym mis Mehefin 2020 ac ar anterth y cyfyngiadau symud, gwelodd y Cinio Mawr rhithiol 4.1 miliwn yn ymuno â digwyddiadau Cinio Mawr ar-lein i ddathlu gyda'u cymunedau.

Rydym hefyd yn cefnogi digwyddiadau untro fel ennill teitl Guinness World RecordsTM ar gyfer y te prynhawn mwyaf yn y Sage Gateshead ym mis Hydref 2019, gan groesawu 1,054 o bobl o bob cwr o'r byd.


Yn 2019 daeth

**90,000**

O bobl at eu gilydd i’r Cinio Mawr

**Rydym yn ariannu ystod eang o weithgareddau mewn cymunedau ledled y DU.**

Mae'r adran ganlynol yn rhoi sylw i dair thema ddewisol, gan dynnu sylw at rai o'r bobl a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw: pobl ifanc, yr amgylchedd a sifftiau digidol.




YMCA, Lloegr




"Rwy'n edrych ymlaen at weld beth rydyn ni'n mynd i'w gyflawni yn y dyfodol, ac rwy'n gobeithio bod yn ysbrydoliaeth i bobl ifanc eraill."

Rachel, 17,
Aelod, Grŵp Cynghori Pobl Ifanc yn Arwain

# Chwyddwydr ar: **Pobl Ifanc yn Arwain**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ariannu £170 miliwn ar gyfer 5,500 o brosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc. Rydym yn falch mai ni yw'r ariannwr mwyaf o weithgarwch ieuenctid yn y DU.

Mae gennym ein Grŵp Cynghori Pobl Ifanc yn Arwain ein hunain, sy'n sicrhau bod pobl ifanc ar y blaen ac yn rhan allweddol o'n grantiau a'n hymatebion i faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cyfoedion. Mae'r grŵp wedi parhau i gyfarfod ar-lein drwy gydol COVID-19 ac mae'n ein helpu gyda'n hymateb i'r argyfwng.

## Cefnogi eu cymuendau drwy COVID-19

Mae pwyllgor llywio pobl ifanc Black Country Talent Match wedi sefydlu grŵp cymorth cymheiriaid ar-lein ar gyfer pobl ifanc sy'n teimlo'n ynysig ac sydd â hyder a hunan-barch isel.

Rydym yn ariannu dros

**6,000**

O brosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc a phlant



Jack, Aelod,
Grŵp Cynghori Pobl Ifanc yn Arwain



Grŵp Cynghori Pobl Ifanc yn Arwain

# Chwyddwydr ar: **Yr amgylchedd**

Fel rhan o'n Strategaeth Amgylcheddol, ym mis Gorffennaf 2019 lansiwyd y Gronfa Gweithredu Hinsawdd - ymrwymiad o o leiaf £100 miliwn i alluogi pobl a chymunedau i arwain y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae hyn yn rhan o strategaeth dair elfen sydd, ochr yn ochr â'n Cronfa Gweithredu hinsawdd, yn cynnwys sicrhau ein bod, fel sefydliad, mor wyrdd â phosibl ac yn cefnogi sefydliadau cymunedol i wneud yr un peth. Er enghraifft, drwy archwilio ffyrdd o liniaru eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae ein cynllun ychwanegiad hinsawdd yn cael ei dreialu yng Nghymru ac eleni rydym wedi dyfarnu dros £19.5 miliwn o'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd i 23 o brosiectau, o Cumbria i Gernyw, a Glasgow i Wynedd.



Digwyddiad lansio Cronfa Gweithredu Hinsawdd



Shettleston Community Growing Project, Yr Alban





**"Nid yn unig y mae gan y prosiect hwn effaith ar yr amgylchedd yn Hackney, mae hefyd yn helpu i leihau unigedd cymdeithasol ac yn galluogi pobl i ffynnu."**

Siobhan,
Cydlynydd Prosiectau Cymunedol,
St Mary's Secret Garden

Cronfa Gweithredu Hinsawdd, DU

# Chwyddwydr ar: **Digital shifts**

Rydym bob amser wedi cefnogi a pharhau i gefnogi pobl a sefydliadau ar unrhyw adeg o'u taith, gyda'r gallu i harneisio allwedd ddigidol wrth greu newid sylweddol yng nghymdeithas sifil y DU. Rydym eisoes yn gwneud hyn gyda'r Gronfa Ddigidol ond hefyd drwy ariannu sefydliadau fel CAST sy'n ychwanegu'r cyfle i gyrraedd y sefydliadau llai hynny a allai elwa'n fawr o'r cymorth hwn.

Mae COVID-19 hefyd wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid yn y sector o ran darparu gwasanaethau digidol a phrosesau digidol. Roedd mesurau cyfyngiadau symud yn arbennig yn golygu bod rhaid i lawer o elusennau a sefydliadau cymunedol symud yn gyflym i weithio o bell a darparu gwasanaethau. Nid yw atebion digidol yn ateb i bopeth, gyda llawer o 'n deiliaid grant yn teimlo na all gwasanaethau digidol efelychu holl fanteision gwasanaethau wyneb yn wyneb, ond maent yn rhan o ateb cyfunol.

**We are With You**

Dyfarnwyd grant o £492,902 i We are With You gan Gronfa Cymorth Cymunedol Coronafeirws i'w helpu i barhau i gynnig cymorth a chyngor i bobl ag ystod eang o anghenion, drwy sefydlu sgwrs ar y we a grwpiau ar-lein, a datblygu rhaglenni digidol a chronfeydd rhyddhad unigol.

Er bod y cyfyngiadau symud yn golygu bod yn rhaid i'r tîm fod yn greadigol gyda'r ffordd yr oeddent yn darparu cymorth, roeddent yn gallu parhau i helpu bron pob un o'u buddiolwyr blaenorol, yn ogystal â llu o wynebau newydd. Canfuwyd eu bod yn gallu cysylltu â phobl y tu allan i oriau arferol, heb deithio fel rheidrwydd a heb gyfyngiadau. Roedd hyn yn golygu y gellir helpu mwy o bobl ar adegau sy'n addas iddynt ac nad ydynt yn dibynnu ar argaeledd mannau cyfarfod na'r gallu i deithio i fan corfforol.



Digital Buddies, Lloegr



**“Rydym yn deall bod menywod phobl sy'n rhoi genedigaeth angen cymorth ymarferol am sut i addasu i amgylchiadau newidiol.”**
Nyree-Dawn,
Syflaenydd Mum Bub Hub

Gan ddarparu cymorth arbenigol, personol i fenywod sy'n cael anawsterau i gael gofal, mae Canolfan Gymorth ar-lein newydd Mum Bub Hub yn helpu i sicrhau bod mamau newydd yn Llundain yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt, diolch i arian y Loteri Genedlaethol.

Mum Bub Hub, Lloegr

# Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i bawb

Nid yw'r pethau hyn yn digwydd ar eu pennau eu hunain – mae angen cymorth ar weithgarwch cymunedol. Rydym yn cefnogi sefydliadau ar draws y sector gwirfoddol a chymunedol, o'r grwpiau cymunedol lleiaf i elusennau cenedlaethol, i wneud yr hyn a wnânt o ddydd i ddydd ac i gynyddu eu gwydnwch ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau i gefnogi'r meysydd y maent yn eu nodi ond rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag arianwyr eraill a gyda’r llywodraeth ar agenda allweddol yn genedlaethol, megis gweithredu ar yr hinsawdd, unigrwydd, heneiddio'n well a chefnogi pobl ifanc i enwi dim ond y rhai. Rydym hefyd wedi darparu rhaglenni llywodraeth ar raddfa fawr ochr yn ochr â'n grantiau ein hunain pan fo angen i wneud hynny, megis gyda'r Gronfa Cymorth Cymunedol Coronafeirws.

Rydym yn gweithio i arwain y ffordd o ran ariannu, profi a dysgu dulliau newydd arloesol ac ailadroddol a defnyddio ein rhwydwaith cenedlaethol i geisio mynd i'r afael â materion difrifol yn y meysydd sy'n eu teimlo fwyaf. Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith o arianwyr a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i rannu'r hyn a ddysgwn, gan lywio arfer gorau ac rydym bob amser yn ceisio ehangu ein dull partneriaeth a gweithio a rhannu gydag eraill.

Rydym yn genedlaethol ac wedi ein lleoli yn y cymunedau rydym yn eu cefnogi. Ni yw'r ariannwr mwyaf o weithgarwch cymunedol yn y DU ac rydym yn deall y pethau y mae'r cymunedau niferus ac amrywiol o bob rhanbarth daearyddol yn y DU am gael cymorth â nhw.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i bawb.

Blwyddyn diwethaf, roedd
**87%**
o grantiau newydd am
**£10,000 neu lai**



Footprints Women's Centre, Gogledd Iwerddon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais am grant ewch i **cronfagymunedolylg.org.uk**

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND